Sefydliad Materion Cymreig
Institute of Welsh Affairs

Cylchlythyr IWA Awst 2006

Cynadleddau'r Hydref yr IWA

Dydd Iau 5 Hydref, 9.30 - 5
Chwaraeon a Datblygu Economaidd yng Nghymru
Stadiwm y Mileniwm, Caerdydd

Cyfle i glywed sut y gall Cymru fanteisio o gynnal Cwpan Ryder yn y Celtic Manor, Casnewydd yn 2010 a'r Gemau Olympaidd yn Llundain yn 2012, ac i ddysgu am yr hyn y gellir ei gyflawni yn sgil buddsoddi'n gyffredinol mewn cyfleusterau chwaraeon newydd. Mae'r digwyddiad yn cynnwys cyfle i weld y cyfleusterau tu ôl i'r llenni yn stadiwm cenedlaethol eiconig Cymru.
£95 (£75 i aelodau)

Dydd Gwener 13 Hydref, 9.30 – 4.30
Dyfrffyrdd i Bobl
Gwesty'r Parkway, Cwmbrân
Bydd manteision adfywiad gwledig a dinesig a ddaw yn sgil adfer ein camlesi ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau hamdden a thwristiaeth yn cael eu hastudio, gan gyfeirio'n benodol at y gwaith a wneir ar Gamlas Sir Fynwy a Brycheiniog. Beth yw'r cyfleoedd ar gyfer creu busnesau newydd sy'n gysylltiedig â'n dyfrffyrdd mewnol?
£30 (£20 i elusennau)

Dydd Llun 16 Hydref, 9.30 – 5
Polisi Gwyddoniaeth i Gymru
Gwesty'r Thistle, Caerdydd
Fel pob economi lwyddiannus arall, mae Cymru'n ymdrechu i greu sylfaen ymchwil gwyddonol o safon fyd-eang. Wrth i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu polisi, sut mae arfer yng Nghymru yn cymharu â gwledydd eraill a beth allwn ni ei ddysgu oddi wrthynt? Y Fonesig Susan Greenfield, cyfarwyddwr y Sefydliad Brenhinol, fydd y siaradwraig wadd yn ystod y cinio.
£105 (£75 i aelodau IWA)

Dydd Llun 27 Tachwedd, 9.30 -5
Amser Cyflawni: Trydydd Tymor Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Gwesty'r Thistle, Caerdydd
I gyd-fynd â chyhoeddi adroddiad ymchwil pwysig gan yr IWA bydd y gynhadledd hon yn edrych ar yr heriau sy'n wynebu'r weinyddiaeth a etholir wedi etholiadau'r Cynulliad fis Mai nesaf ac ar y dewisiadau polisi ym meysydd iechyd, addysg, datblygu economaidd, trafnidiaeth, tai, amaethyddiaeth, yr amgylchedd, diwylliant a chwaraeon.

Siaradwyr yr Hydref

Dydd Iau 28 Medi 7.00
O Lanelli i San Steffan
Gwesty'r Stradey Park, Llanelli

Bydd Michael Howard, cyn arweinydd y Blaid Geidwadol, yn edrych yn ôl ar yrfa a aeth ag ef o Gymru i San Steffan ac at gyfres o swyddi blaenllaw yn y Cabinet, gan gynnwys arweinyddiaeth ei blaid.

Dydd Gwener 10 Tachwedd
Gwersi Addysg o Dde Awstralia
Gwesty'r Thistle, Caerdydd
Cyn symud i Gymru yn gynharach eleni i fod yn bennaeth Adrannol yn yr Adran Addysg, Sgiliau a Dysgu Gydol Oes, roedd Steve Marshall yn gwneud swydd debyg yn Ne Awstralia. Pa mor wahanol yw Cymru a pha wersi sydd ganddo?

Os hoffech archebu eich lle ar gyfer unrhyw un o'r digwyddiadau hyn ffoniwch 029 2066 6606 neu e-bostiwch wales@iwa.org.uk
Gallwch hefyd lawrlwytho ffurflenni archebu oddi ar ein gwefan www.iwa.org.uk <http://www.iwa.org.uk> A fyddech gystal â throsglwyddo'r wybodaeth yma i unrhyw un a fyddai â diddordeb yn eich barn chi neu roi eu manylion i ni?

Mae gennym ni hefyd nifer o ddigwyddiadau cangen wedi eu trefnu gan gynnwys taith a thrafodaeth ar adfywio Abertawe – **SAUn-o Ymlaen** – yn Technium 2 ddydd Mercher 20 Medi. Rydym hefyd yn agos at gwblhau'r trefniadau ar gyfer nifer o ddigwyddiadau'r hydref yng ngogledd Cymru; gobeithiwn allu anfon y manylion i chi am y digwyddiadau hyn yn ein cylchlythyr nesaf fis nesaf. Os oes gennych chi syniadau ar gyfer digwyddiadau yr hoffech chi eu gweld yn cael eu hychwanegu at y rhaglen unrhyw le yng Nghymru, rhowch wybod i ni. Mae pwyllgorau'r canghennau o hyd yn frwd am syniadau newydd ac i groesawu gwirfoddolwyr!

Canghennau
Mae ein canghennau yng Ngorllewin Cymru ac yn Abertawe wedi penodi cadeiryddion newydd yn ddiweddar. Peter Davies, a oedd gynt yn gyda Busnes yn y Gymuned ac a ddychwelodd i fyw i Sir Benfro llynedd, sydd wedi cymryd yr awenau yng Ngorllewin Cymru. Yn ddiweddar fe'i penodwyd yn Gomisiynydd Cymru ar Gynaliadwyedd. Yr Athro John Tucker yw'r cadeirydd newydd yn Abertawe. Mae'n ym Mhrifysgol Abertawe.

Ffi aelodaeth
Nodyn i'ch atgoffa y bydd ffi aelodaeth yn codi o 1 Medi i £35 y flwyddyn ar gyfer aelodau unigol, y cynnydd cyntaf ers 2002. Rydym wedi meddwl yn galed cyn gweithredu'r codiad ond, fel y gobeithiwn y byddwch yn deall, rydym wedi gorfod amsugno costau ychwanegol dros y pedair blynedd diwethaf ac mae angen i ni adennill y costau hyn bellach os ydym am gyflawni rhaglen ymchwil sylweddol a chynnig ystod o ddigwyddiadau ar gyfer ein haelodau.

Swyddfeydd Newydd
Mae'r IWA yn symud swyddfeydd ym mis Awst a'n cyfeiriad o Awst 22 ymlaen fydd 1 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BD. Bydd ein rhifau ffôn a'n cyfeiriadau e-bost yn aros yr un fath. Mae croeso i aelodau ymweld â ni yn ein cyfeiriad newydd lle byddwn yn falch i ateb eich cwestiynau neu glywed eich barn ar faterion o ddiddordeb i Gymru neu ar yr IWA yn gyffredinol. Bydd ôl-restr o'n cyhoeddiadau hefyd ar werth yn y cyfeiriad hwn.

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol
Cynhelir cyfarfod cyffredinol yr IWA yn ar 19 Medi am 5 pm ac mae croeso i bob aelod fynychu. Dyma eich cyfle i gyfarfod aelodau'r bwrdd ac i drafod eich syniadau

ynghylch datblygu rhaglen ymchwil a digwyddiadau'r sefydliad â nhw. Rhoddir hysbysiad ffurfiol yn rhoi manylion o'r cyfarfod i aelodau cyn diwedd mis Awst.

Ymchwil
Mae'r gwaith ar un o brosiectau ymchwil mwyaf yr IWA dros y blynyddoedd diwethaf yn agos at y terfyn - ein hastudiaeth o bolisïau posibl ar gyfer Trydydd Tymor y Cynulliad (gweler y Gynhadledd uchod). Mae nifer o bwyllgorau wedi bod yn cyfarfod ers diwedd y gwanwyn a'r haf i archwilio lle mae Cymru arni o ran iechyd, addysg, datblygu economaidd ac mewn meysydd eraill ac i gynnig syniadau polisi priodol. Ein gobaith yw y bydd yr adroddiad a gyhoeddir gennym yn hwyr ym mis Hydref yn hybu trafodaeth eang ymysg ffurfwyr polisi, gwleidyddion, arweinwyr busnes a chymunedol ac aelodau'r cyhoedd ac y bydd rhai o argymhellion yr adroddiadau'n cael eu mabwysiadu gan y pleidiau gwleidyddol ar gyfer eu maniffestos ar gyfer 2007. Mae academyddion, arweinwyr busnes ac arbenigwyr eraill wedi bod yn rham o'r paneli ac mae'n dyled yn fawr iddynt am yr amser a'r ymdrech a roddwyd mor garedig ganddynt wrth ysgrifennu'r penodau unigol.

Rhoddir manylion ynghylch sut y gall aelodau gael copi o'r adroddiad - y disgwyliwn gael cryn dipyn o sylw yn y cyfryngau amdano – yn ei dro. Bydd ein cylchlythyr nesaf hefyd yn cynnwys adroddiad llawnach o weithgaredd ymchwil presennol yr IWA.